

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne  
Llanafan, ar Nos Lun 22 Chwefror, 2016 am 7.30 y.h.**

**Presennol:**

**Cyng. C. Lloyd-Morgan (Cadeirydd)**

**Cyng. H.M. Evans**

**Cyng. Sh. Edwards**

**Cyng. B. Jenkins**

**Cyng. E. Lewis**

**Cyng. J.J. Powell**

**Cyng. L.L. Owen**

**Cyng. R. Jones**

**Ymddiheuriadau**

**Cyng. T.A.G. Davies , Cyng. A. Evans, Cyng. J. George.**

**Materion Personol**

Dymunwyd yn dda i'r Cadeirydd, Cyng. C. Lloyd-Morgan ar dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd gyda Mr. Gareth Bound, cyn aelod o'r Cyngor Bro ar farwolaeth ei Dad yn ddiweddar.

**Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 11eg Ionawr, 2016 fel cofnod cywir.

Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. Byron Jenkins ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**Asesiad Risg ac Asedau**

Dim materion yn codi.

**Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn**

Derbyniwyd gohebiaeth gan Mr. Alan Davies, Swyddog o'r Cyngor Sir yn datgan ei fod yn parhau i wneud profion o fewn y pentref. Nodir hyd yn hyn y darganfir fod saith tŷ gyda'u pibenau carthffosiaeth wedi cysylltu yn syth i system biben ddraenio dŵr wyneb y ffordd. Erbyn hyn mae chwech o'r tai yma wedi gwneud gwelliannau i'r system gyda threfniadau ar y gweill i ddatrys y broblem gyda'r seithfed tŷ.

Gweithred: Y Clerc i gadw cysylltiad gyda Mr. Davies am y sefyllfa.

**Coed ar y B4340 Llechwedd Dyrys**

Adroddodd Cyng. L. Owen ei fod wedi cwrdd ar y safle gyda Rob Duke o'r Cyngor Sir gan gerdded ar hyd y safle gan adnabod nifer o goed sydd angen sylw brys o'u torri lawr neu docio nol er diogelwch.

Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod am y pryderon a theimlir nad yw perchennog y tir yn cydnabod difrifoldeb y sefyllfa sy'n codi er lles diogelwch y cyhoedd gan ei fod yn anwybyddu rhybuddion statudol a gyflwynir iddo i gwblhau'r gwaith. Teimlir hefyd nad yw Swyddogion y Cyngor Sir yn cydnabod y sefyllfa ychwaith a bod angen rhoi pwysau parhaus arnynt i weithredu a chwblhau'r gwaith dan sylw.

Cytunwyd y byddai Cyng. L. Owen yn cysylltu gyda Rob Duke y diwrnod canlynol i gael diweddariad ac annog yn gryf ar y Cyngor Sir i gymryd at y gwaith cyn diwedd mis Mawrth.

Gweithred: Cyng. L. Owen i gysylltu gyda Rob Duke.

### **Dŵr ger y Gors**

Derbyniwyd ymateb wrth Swyddog o'r Cyngor Sir oedd yn bresennol yn y cyfarfod safle yn nodi na chymerwyd cofnodion o'r cyfarfod safle gan awgrymu byddai'r Cynghorwyr Bro oedd yn bresennol yn medru cyflwyno adroddiad. Nodir y derbyniwyd adroddiad llafar eisoes gan y Cynghorwyr Bro perthnasol. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir i annog am i'r gwaith gael ei gwblhau fel mater o frys gan fod llyn o ddŵr yn cronni ar y ffordd gyda'r tywydd garw ac yn ei wneud yn anodd i yrru ar hyd y ffordd. Deallir fod angen rhoddi system ddraenio drwy'r cae cyfagos a bod y perchennog tir wedi cytuno i'r gwaith gael ei wneud ar ei dir.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i roddi pwysau i'r gwaith gael ei gwblhau fel mater o frys.

### **Sefyllfa Band Llydan o fewn yr Ardal**

Cyfeiriwyd fod y rhaglen deledu S4C *Y Byd ar Bedwar* wedi rhedeg stori ar y problemau ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn.

### **Ffos o Brenan i Lwynbrain**

Y broblem yn parhau.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu ar frys gyda'r Cyngor Sir bod y broblem yn gwaethygu.

### **Safle We**

Cyfarfod wedi cynnal gyda Nigel Callaghan a threfniadau mewn llaw i adeiladu safle we newydd ar gyfer y Cyngor Bro.

### **Rhiw Dolgwybedig**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn manylion gan y Cyngor Sir bod gwaith wedi cael ei wneud ar y ffordd ar y 4ydd o Chwefror. Cyfeiriodd cynrychiolwyr Llanafan bod y problemau yn parhau ac nad oeddent wedi gweld dim gwelliannau yn ddiweddar. Nodir fod y sefyllfa yn gwaethygu gan fod y ffordd yn erydu yn gyflym.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu ar frys gyda'r Cyngor Sir i esbonio'r uchod gan ymholi pa waith a wnaed i'r ffordd ar ddechrau Chwefror.

### **Coed Ffordd Uchaf Llanafan**

Derbyniwyd ymateb wrth Haydn Lewis, Swyddog Ceidwad Hawliau Tramwy a Chefn Gwlad Cyngor Sir Ceredigion. Cadarnhaodd fod contractwr wedi ei gyflogi gan y Cyngor Sir i ledaenu'r llwybr yn dilyn gwaith anfoddfaol a wnaed i ddraenio dŵr ar y llwybr, ble y gadawyd y llwybr mewn cyflwr anfoddfaol a pheryglus i farchogwyr. Nodir nad oedd y Cyngor Sir yn ymwybodol o pwy a wnaed y gwaith gwreiddiol o ddraenio'r dŵr.

Adroddodd Cyng. L. Owen nad oedd y gwaith yma ychwaith yn foddhaol a chytunwyd y byddid yn dda i gynnal cyfarfod safle gyda Mr. Haydn Lewis i drafod y llwybr a'r coed sydd angen eu torri lawr.

Gweithred: Y Clerc i wneud trefniadau perthnasol ar gyfer cyfarfod safle.

**Rhoddion**

Derbyniwyd llythyron o ddiolch wrth y canlynol am y rhoddion a dderbyniasant wrth y Cyngor Bro:

Mair Gwynne Carruthers, Pennaeth Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn;

Mari Davies, Ysgrifennydd Clwb Ffermwyr Ifanc Trisant;

Mark Stevens, Rheolwr Datblygu Rhanbarthol, Ambiwylans Awyr Cymru.

**Goleuadau Stryd newydd**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn manylion wrth y Cyngor Sir y gall ychwanegu polyn golau stryd newydd yn yr ardal fod yn gost oddeutu £2,000 y polyn a hynny yn ddibynnol ar y lleoliad a.y.b. Cytunwyd fod angen Swyddog o'r Cyngor Sir ymweld â'r ardal i drafod y lleoliadau a chael pris realistig.

Gweithred: y Clerc i wneud ymholiadau am gyfarfod safle.

**Materion angen sylw'r Cyngor Sir**

Cyfeiriodd y Clerc ei bod wedi cael cadarnhad fod y gwaith isod wedi cwblhau a bod y materion eraill sydd wedi adrodd yn parhau ar y rhestr o waith angen sylw.

Drain ger Bryngibdda: y drain wedi ei gwaghaus yn ystod yr wythnos 8-13eg Chwefror a bod arwydd newydd yn dynodi llwybr ceffyl ger pont Trawsgoed wedi ei ail-leoli.

**Coed ger Rhydygarreg Llanafan**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad gyda pherchennog y coed oedd yn goriweddu allan i'r ffordd ger y lleoliad uchod. Er ei fod yn byw tu allan i'r ardal fe wnaeth y perchennog drefniadau i ymweld â'r safle ar frys ac mae wedi rhoddi addewid y byddid yn torri'r coed yn ôl o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf.

**Maes y Felin, Llanafan**

Derbyniwyd ymateb wrth Gyngor Sir Ceredigion a Thai Ceredigion yn ymwneud â diffyg llefydd parcio ym Maes y Felin a nodir mai Tai Ceredigion sydd â chyfrifoldeb am safle Maes y Felin. Cysylltodd June Blake, Ymgynghorydd Tai, Tai Ceredigion gyda'r Clerc yn nodi fod Tai Ceredigion yn ymwybodol eisoes am y broblem o ddiffyg llefydd parcio yn sgil fod yna ambell i gerbyd wedi leoli yno nad oedd mewn defnydd a danfonwyd llythyr at y trigolion ym mis Rhagfyr yn cyfeirio at y problemau. Cadarnhaodd June Blake yn dilyn derbyn sylwadau'r Cyngor Bro ei bod wedi ymweld â'r stad dai ac wedi siarad gyda'r trigolion a bod perchnog ambell i gerbyd wedi cadarnhau y byddid yn gwneud i ffwrdd gyda'r cerbydau dan sylw. Er y gwerthfawrogi'r y weithred hon dangosodd y Cynghorwyr

Bro bryder fod June Blake yn nodi fod un o'r cerbydau dan sylw yn parhau mewn defnydd, er y deallir fod SORN arno ac felly byddid yn torri'r gyfraith drwy ei ddefnyddio. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r Swyddog Heddlu Cymunedol i ymholi am gyfreithlondeb y sefyllfa gan na fedrai'r cynghorwyr bro cydoddef tor cyfraith.

**Materion Cyllidol**

Nodwyd fod sefyllfa gyllidol y Cyngor Cymuned fel y nodir: £6,271.44 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a £1,985.01 yn y Cyfrif Cadw.

**Cyflog a Chostau'r Clerc**

Cyflwynodd y Clerc ei chostau am y flwyddyn a oedd yn cynnwys £25 i'r Lleng Prydeinig £1.35 carden; £20.89 papur ac inc i'r copiwr a £20.00 y flwyddyn am e-byst/galwadau ffôn a chytunwyd i dalu'r swm o £67.24 o gostau. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. J. Powell.

Cytunwyd hefyd i dalu £1,500 cyflog y Clerc; £1,200 i Lis Williams a £300 i'r Gwasanaeth Cyllid a Thollau am daliad 'Thalu wrth Ennill y Clerc.

Cynigiwyd y taliadau gan Cyng. B. Jenkins ac eiliwyd gan Cyng. E. Lewis.

**Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:**

Ymholiad gan Un Llais Cymru a fyddai'r Cyngor Bro am ymaelodi gyda'r sefydliad. Derbyniwyd y llythyr a chytunwyd na fyddai'r Cyngor Bro yn ymaelodi.

Trafodwyd gwybodaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ble y deallir o dan Adran 10 o'r Adroddiad Blynyddol fod hawl gan aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned i dderbyn taliad hyd at £100 yn ymwneud a chostau a threuliau am eu gwaith fel Cynghorwyr Bro yn cynrychioli'r gymuned.

Cytunodd aelodau o Gyngor Bro Trawsgoed yn unfrydol i wneud penderfyniad mai gwirfoddol yr ymgymerir â'r gwaith o fod yn Gynghorydd Bro ac na fyddid yn derbyn tâl am gostau a threuliau am wasanaethu'r Gymuned ar y Cyngor Bro.

Rhoddion

Gohebiaeth gan sefydliadau *Tenovous* a *Gofal Mewn Galar* yn gwneud ceisiadau am roddion. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gan nad oedd y ddau sefydliad wedi lleoli o fewn yr ardal na fyddid yn danfon rhodd.

Ond yn dilyn ymholiad wrth Papur Bro Y Ddolen cytunwyd i ddanfon rhodd o £150 i'r Ddolen.

Cynigiwyd y taliad tan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. B. Jenkins.

**UNRHYW FATER ARALL****Materion angen sylw gan y Cyngor Sir**

Cyfeiriwyd fod dwr a mwd yn cronnu ar hyd nifer o ffyrdd bychan yn yr ardal yn dilyn cerbydau ffermydd yn teithio yn rheolaidd ar hyd-ddynt.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r perchnogion tir i ddatgan pryder aelodau'r Cyngor Bro.

**Ffordd ar gau dros dro:**

Derbyniwyd manylion y bydd y ffordd C1022 heibio Cwmnewydion, i'r dwyrain o Abermagwr ar gau o'r 15fed Chwefror hyd y 14eg Mawrth ar gyfer Gwaith adfer y briffordd.

### **Brynhyfryd, Y Gors**

Ers nifer o flynyddoedd mae'r Cyngor Bro wedi bod mewn trafodaethau a llythyru a brwydro gyda'r Cyngor Sir i gael perchnogion y tŷ uchod i gwblhau gwaith ar y ffordd ger eu heiddo yn unol â'r cais cynllunio gwreiddiol. Yn Ebrill 2015 fe gyhoeddodd y Cyngor Sir rybudd statudol ar y perchnogion i gwblhau'r gwaith ond fe apeliwyd y rhybudd drwy'r Arolygiaeth Gynllunio. Derbyniodd y Cyngor Bro fanylion drwy bapurau cyhoeddus o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir ar y 10fed o Chwefror fod y rhybudd statudol wedi ei wrthwynebu gan yr Arolygiaeth Gynllunio mwy neu lai oherwydd bod cyhyd o amser (bron i 10 mlynedd) wedi mynd heibio ers y cais cynllunio gwreiddiol. Teimlwyd siomedigaeth gan y Cyngor Bro gan y buwyd yn brwydro ers bron i ddeng mlynedd er lles y cyhoedd ac yn awr nid oes dim y medrir gwneud ymhellach.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir yn datgan siomedigaeth oherwydd y penderfyniad a hefyd nad oedd Swyddogion y Cyngor Sir wedi dangos cwrteisi i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Cyngor Bro i rannu'r penderfyniad.

### **Gynllun Mabwysiadu Llwybrau.**

Gohebiaeth wrth Gyngor Sir Ceredigion yn ymholi am ddiddordeb y Cyngor Bro am fabwysiadu Llwybrau troed o fewn yr ardal drwy gynorthwyo i'w tocio a gwneud gwaith cynnal a chadw. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd na fyddai diddordeb gan y Cyngor Bro mewn mabwysiadu'r llwybrau.

### **Cynrychiolaeth yr Awdurdodau Llai ar Gorff Llywodraethol**

Manylion gan Adran Llywodraethwyr Cyngor Sir Ceredigion yn nodi fod cyfnod Cyng. John George yn dod i ben ar y 25ain Chwefror 2016 ar Gorff Llywodraethol Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn fel cynrychiolaeth yr Awdurdodau Llai ac angen ethol aelod i wasanaethu ar y Corff Llywodraethol.

Yn dilyn trafodaeth ail-enwebwyd Cyng. John George i gynrychioli'r Cyngor Bro.

Gweithred: Yn absenoldeb Cyng. George y Clerc i gysylltu gydag ef i gadarnhau ei fod yn hapus i'w ail-ethol ac yna cysylltu gyda'r Adran Llywodraethol yn sgil yr ymateb.

### **Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020**

Derbyniwyd llythyr a gyfeiriwyd at Gynghorau Thref a Chymuned Ceredigion wrth Gyngor Sir Ceredigion yn ymholi am ddiddordebau ar gyfer safle addas ar gyfer lleoli Eisteddfod Genedlaethol yn 2020. Cytunwyd nad oedd lleoliad addas ar gael yn ardal Cyngor Bro Trawsgoed a'r Clerc i ymateb fel y nodir.

### **Adolygiad o Gludiant ôl 16 rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg a'r Ddarpariaeth Seddi Gwag**

Derbyniwyd yr adolygiad uchod wrth Gyngor Sir Ceredigion a chafwyd trafodaeth faith am y bwriad sef i godi tâl o £390 y flwyddyn ar ddisgyblion penodol sy'n cwmpo i'r categori uchod.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ymateb drwy wrthwynebu'n gryf i'r bwriad gan nodi na fyddai rhai teuluoedd yn medru fforddio'r costau ychwanegol yma ac yn sgil hynny y byddid yn gwahaniaethu yn erbyn rhai dosbarthiadau penodol o ddisgyblion.

Byddai rhai teuluoedd yn gorfod gwneud y penderfyniad anodd o beidio danfon eu plant i addysg ôl 16 gan na fedrir fforddio'r costau teithio.

## 562

Pan bu ymgynghoriad ar addysg ôl 16 yn ardal Tregaron cafwyd addewid gan y Cyngor Sir na fyddai costau ychwanegol ar deuluoedd ardal Tregaron ond yn awr mae'r Cyngor Sir wedi gwneud tro pedol ar yr addewid yma ac am godi tâl ar yr union ddisgyblion yma.

O ran codi tâl ar ddisgyblion sy'n defnyddio seddi gwag gwrthwynebu gan y gorfodir disgyblion i gerdded i'r ysgol ar hyd ffyrdd peryglus, heb lwybrau cerdded diogel.

Nodir hefyd fod trigolion sy'n byw yng Nghefn Gwlad Ceredigion yn cael eu targedu unwaith yn rhagor gyda Threth y Cyngor yn codi ond y gwasanaethau a dderbynnir yn cael eu cwtogi byth a hefyd.

Trafodir hefyd i'r Clerc gysylltu gyda Chlercod Cynghorau Bro gyfagos i ddatgan barn Cyngor Bro Trawsgoed am yr adolygiad.

### **UNRHYW FATER ARALL**

#### **Coed Peryglus**

Cyfeiriwyd fod yna ddwy goeden ar y ffordd heibio Llanerchyroen, Cnwch Coch sydd angen sylw brys gan o fewn peryg o gwmpo i'r ffordd.

#### **Draeniau angen gwaghau**

Cyfeiriwyd fod angen parhau i gysylltu gyda'r Cyngor Sir am yr uchod gan fod y sefyllfa yn parhau drwy'r ardal.

#### **Goleuadau Stryd**

Cyfeiriwyd fod yna ddwy olau stryd yn Llanafan nad sy'n goleuo ac angen sylw brys. Deallir fod Cyng. L. Owen mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir am y sefyllfa ac yn dilyn lan.

#### **Arwyddion Ffyrrd**

Nodir fod yr arwydd 40 m.y.a. wrth fynd i Abermagwr o gyfeiriad y Gors wedi troi ac angen sylw.

#### **Dyddiad y Cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 4ydd Ebrill, am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn.

